Response 7:
Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol
Public and Commercial Services Union

# Ymateb i Ymgynghoriad Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ar God Ymddygiad newydd ar gyfer Aelodau

## Ymateb ar ran y PCS – yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol

Version 0.3 | 20/01/2021

Mae'r PCS yn cynrychioli staff ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a'r Gwasanaethau Masnachol hynny sy'n gwasanaethu Ystadau'r Sector Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys staff Comisiwn y Senedd, Staff Cymorth Aelodau a staff contractwyr trydydd parti sy'n gweithio ar Ystâd y Senedd ac yn Swyddfeydd Etholaethau'r Aelodau ar draws Cymru.

Mae'r PCS hefyd yn cynrychioli staff mewn nifer o Sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill ar draws Cymru (a'r Deyrnas Unedig ehangach) y gallai Aelodau ddod i gysylltiad â nhw'n aml. Fel enghreifftiau, mae hyn yn cynnwys staff yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Chwaraeon Cymru a holl Adrannau'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Mae Dogfen Ymgynghori Wreiddiol y Senedd i'w gweld yn:
https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=412

# Cynnwys

Cwestiwn 1: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull o strwythuro'r Cod, fel:

- set o egwyddorion trosfwaol sy'n disgrifio sut y dylai Aelodau ymddwyn; a

- set o reolau clir y gellir dwyn Aelodau i gyfrif yn eu herbyn. Mae'n dda cael ymateb i'r ymgynghoriad ar strwythur y Cod. Fodd bynnag, rydym hefyd yn sylwi â siom fod y ddogfen yn crybwyll pwysigrwydd Canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r cod a heb y canllawiau hyn mae'n teimlo'n anodd rhoi sylw ar ba mor gyflawn yw'r cod hwn.

............ 5

Cwestiwn 2: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn ar gymhwyso'r Cod i fywydau preifat Aelodau. Ble dylid sicrhau'r cydbwysedd rhwng hawl yr Aelod i fywyd preifat a theuluol a budd y cyhoedd er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad ar ran y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus? ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 3: Byddem yn croesawu eich barn ar y dull a ddefnyddiwyd gennym i deilwra'r geiriad sy'n gysylltiedig â saith egwyddor Nolan, gyda'r nod o'u gwneud yn gymwys ac yn berthnasol i rolau Aelodau'r Senedd. A fyddech yn awgrymu unrhyw newidiadau pellach i'r geiriad hwn? ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 4: Byddem yn croesawu eich barn ar ein hegwyddor ychwanegol arfaethedig o barch a'r rheolau cysylltiedig. Ydych chi'n credu ei fod yn ddigon clir o ran ei ddisgwyliadau ar sut y bydd Aelodau'n ymddwyn? ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 5: Byddem yn croesawu eich barn ar y rheolau a nodir yn y Cod wedi'i ddiweddaru: - a ydyn nhw'n ddigon clir wrth nodi sut mae'n rhaid i Aelodau ymddwyn? - a oes unrhyw reolau neu agweddau ar y rheolau yn y Cod wedi'i ddiweddaru y credwch na ddylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw? - a ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw? ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 6: Mae'r canllawiau ar hyn o bryd wedi'u cynnwys yn y Cod a'r weithdrefn, ac rydym yn awgrymu y dylent fod yn annibynnol. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a oes meysydd penodol o'r Cod, neu'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn gyffredinol, yr hoffech weld arweiniad arnynt. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 7: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull arfaethedig o nodi enghreifftiau ymarferol o dorri Cod mewn canllawiau, ac unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych ar ddatblygu canllawiau. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 8: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld yn y weithdrefn. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 9: Byddem yn croesawu eich barn ar y sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor ac unrhyw newidiadau y credwch y gallai fod angen eu gwneud iddynt. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 10: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cael amserlen ar gyfer cwynion, ac os na, a ddylai fod unrhyw amodau ar dderbynioldeb cwynion dros 12 mis oed. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 11: Byddem yn croesawu eich barn ar sut y dylai adroddiadau'r Comisiynydd gyfeirio at wybodaeth sensitif y dibynnir arni ar gyfer ymchwiliadau. ............ Error! Bookmark not defined.

Cwestiwn 12: Byddem yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r broses apelio ychwanegol i'r unigolyn annibynnol - y manylir arni uchod - barhau i fod yn rhan o'r weithdrefn. ............ Error! Bookmark not defined.

## Cwestiwn 1: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull o strwythuro'r Cod, fel:

## - set o egwyddorion trosfwaol sy'n disgrifio sut y dylai Aelodau ymddwyn; a

## - set o reolau clir y gellir dwyn Aelodau i gyfrif yn eu herbyn. Mae'n dda cael ymateb i'r ymgynghoriad ar strwythur y Cod. Fodd bynnag, rydym hefyd yn sylwi â siom fod y ddogfen yn crybwyll pwysigrwydd Canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r cod a heb y canllawiau hyn mae'n teimlo'n anodd rhoi sylw ar ba mor gyflawn yw'r cod hwn.

Mae'r system rifo yn y Cod Ymddygiad newydd arfaethedig yn anodd iawn cyfeirio ati. Gyda lwc, mae hyn oherwydd brys wrth ddrafftio ac y caiff ei safoni cyn i'r Cod Ymddygiad gael ei gyflwyno i'w gadarnhau gan y Senedd.

## Cwestiwn 2: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn ar gymhwyso'r Cod i fywydau preifat Aelodau. Ble dylid sicrhau'r cydbwysedd rhwng hawl yr Aelod i fywyd preifat a theuluol a budd y cyhoedd er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad ar ran y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus?

Caiff Aelodau eu penodi yn ddeiliaid swyddi sy'n Aelodau o'r Senedd 24/7. Nid yw'n rôl y gellir cydio ynddi a'i tharo i lawr fel y mynnir. Mae hyn yn golygu y disgwyliant gael eu cefnogi felly gan Gomisiwn y Senedd i allu gweithio 24/7. O'r herwydd, dylid bod disgwyl arnynt i lynu wrth y Cod Ymddygiad 24/7.

Caiff y Cyfryngau Cymdeithasol eu hystyried yn ffordd ymarferol o gyfathrebu â Phobl Cymru. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn eu hanfod yn sianelau cyfathrebu cyhoeddus, yn ddull o ddarlledu neges i ofod cyhoeddus. Dylid ystyried bod unrhyw beth y mae gwleidydd yn ei bostio, neu'r hyn a gaiff ei bostio yn enw'r gwleidydd hwnnw drwy gyfrif swyddogol ar eu rhan, yn cael ei ddweud gan yr Aelod hwnnw ac felly rhaid i'r cod fod yn berthnasol iddynt drwy'r hyn y maent yn dymuno ei leisio (neu y maent wedi'i leisio) drwy eu sianelau Cyfryngau Cymdeithasol.

## Cwestiwn 3: Byddem yn croesawu eich barn ar y dull a ddefnyddiwyd gennym i deilwra'r geiriad sy'n gysylltiedig â saith egwyddor Nolan, gyda'r nod o'u gwneud yn gymwys ac yn berthnasol i rolau Aelodau'r Senedd. A fyddech yn awgrymu unrhyw newidiadau pellach i'r geiriad hwn?

Mae'r PCS yn croesawu'r eglurder y mae'r iaith newydd a ddefnyddir yn y Cod Ymddygiad yn ei ddarparu.

Fodd bynnag, nid yw defnyddio "dylai" mewn cod ymddygiad yn rhoi grym a phŵer y gair "rhaid". Yn benodol wrth drafod yr egwyddorion cyffredinol y mae'n "rhaid" i Aelodau ymddwyn yn unol â nhw.

Hoffem weld pob "dylai" yn cael ei newid yn "rhaid" gan fod y rhain yn allweddol i sut disgwylir i Aelod ymddwyn. Mae hyn yn bwysig dros ben yn Rhan 2 Llinell 6, lle caiff "yr Egwyddorion Trosfwaol" eu disgrifio.

## Cwestiwn 4: Byddem yn croesawu eich barn ar ein hegwyddor ychwanegol arfaethedig o barch a'r rheolau cysylltiedig. Ydych chi'n credu ei fod yn ddigon clir o ran ei ddisgwyliadau ar sut y bydd Aelodau'n ymddwyn?

Mae'n dda gweld egwyddorion Urddas a Pharch yn cael eu dwyn i mewn i'r Cod Ymddygiad o'r Polisi Urddas a Pharch a fabwysiadodd y Senedd ym mis Mai 2018[1]. Yn allweddol i hyn yw bod y Cod Ymddygiad "bob amser, ym mhob man ac ym mhob cyd-destun" yn llywodraethu ymddygiad Aelodau'r Senedd. Mae'n bwysig bod y cysyniad hwn yn cario drwodd i'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau.

Yn benodol, mae'r PCS yn croesawu cyflwyno iaith megis "parch" ac "ymddygiad digroeso" i'r Cod Ymddygiad. Mae geiriad o'r fath yn holl bwysig oherwydd bod rhaid i unrhyw ymddygiad sy'n ddigroeso gan y sawl sy'n destun yr ymddygiad gael ei ystyried yn "unrhyw ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i gyfnewid gan y sawl sy'n destun yr ymddygiad, p'un a yw'r ymddygiad wedi'i fwriadu i beri tramgwydd ai peidio, a ph'un a yw'n digwydd dro ar ôl tro neu unwaith yn unig"[2]. Mae disgwyl i bawb sy'n gweithio yn y Senedd, neu ag Aelodau mewn cyd-destunau eraill, ddangos graddau helaeth o barch at urddas eraill a bod yn abl i asesu a oes perygl i'r sawl sy'n destun yr ymddygiad deimlo ei fod yn amhriodol.

Y prif bryder gan y PCS wrth ystyried y newidiadau hyn yw bod materion Urddas a Pharch yn dod yn orfodadwy drwy'r Cod Ymddygiad ddiweddaraf ar gyfer Aelodau. Mae gan bob grŵp sy'n gweithio yn y Senedd ei God Ymddygiad ei hun (a Pholisi Urddas a Pharch cysylltiedig) i lynu wrthynt. Mae angen i'r holl ddogfennau hyn ryngweithio i sicrhau bod pawb sy'n gweithio i

[1] https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/polisi-urddas-a-pharch-senedd-cymru/

[2] https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/polisi-urddas-a-pharch-senedd-cymru/

gynorthwyo Aelodau yn ogystal â'r Aelodau eu hunain yn cael eu trin ag Urddas a Pharch yn y gweithle.

## Cwestiwn 5: Byddem yn croesawu eich barn ar y rheolau a nodir yn y Cod wedi'i ddiweddaru:

## - a ydyn nhw'n ddigon clir wrth nodi sut mae'n rhaid i Aelodau ymddwyn?

## - a oes unrhyw reolau neu agweddau ar y rheolau yn y Cod wedi'i ddiweddaru y credwch na ddylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw?

## - a ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw?

Caiff y Cyfryngau Cymdeithasol eu hystyried yn ffordd ymarferol i Aelodau gyfathrebu â Phobl Cymru. Mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn eu hanfod yn sianelau cyfathrebu cyhoeddus, yn ddull o ddarlledu neges i ofod cyhoeddus. Dylid ystyried bod unrhyw beth y mae gwleidydd yn ei bostio, neu'r hyn a gaiff ei bostio yn enw gwleidydd drwy gyfrif swyddogol ar eu rhan, yn cael ei ddweud gan yr Aelod hwnnw yn gyhoeddus ac felly rhaid i'r cod fod yn berthnasol iddynt drwy'r hyn y maent yn dymuno ei leisio (neu y maent wedi'i leisio) drwy eu sianelau Cyfryngau Cymdeithasol.

Mae'r PCS hefyd yn croesawu geiriad arfaethedig 16 (i) fel gwelliant i'r eglurder ar bwysigrwydd cyfrinachedd dogfennau a rennir gan Gomisiwn y Senedd sydd wedi'u marcio i'w diogelu. Rhoddir marciau o'r fath er mwyn caniatáu i staff Comisiwn y Senedd rannu gwybodaeth berthnasol ag Aelodau'r Senedd ar sail ymddiriedaeth. Rhennir y wybodaeth hon i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu rôl ond rhoddir y marc oherwydd (ar yr adeg y rhennir y wybodaeth â'r Aelod o leiaf) nid yw'r wybodaeth hon yn barod i'w datgelu'n llawn i'r cyhoedd.

I ychwanegu eglurder pellach i'r pwynt hwn, byddem yn argymell rhannu 16(i) yn 2 linell i wahanu gwybodaeth a rennir yn gyfrinachol oddi wrth wybodaeth sydd wedi'i marcio i'w diogelu. Mae gwahaniaeth mawr rhwng gwybodaeth a rennir yn gyfrinachol (ond nad yw wedi'i marcio i'w diogelu) a gwybodaeth sydd wedi'i marcio i'w diogelu (pa un yw'r marc hwnnw yn cynnwys "cyfrinachol" ai peidio).

(16)(ia) ni ddylid ond datgelu gwybodaeth gyfrinachol ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen neu ganiatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;

(16(ib) ni ddylid ond datgelu neu rannu fel arall ddeunydd sydd wedi'i farcio i'w ddiogelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen neu ganiatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;

Rydym yn cytuno y dylai 9 (9) bod yn rhaid i Aelodau: Gydymffurfio â'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd fod yn ddigonol i gwmpasu unrhyw Reolau o'r fath, ar amser arferol neu'n benodol ar gyfer cyfnodau etholiad. Er mwyn eglurder a thryloywder hoffem weld y llinell hon yn cael ei newid ychydig i gynnwys y gair "cyhoeddedig" i ddarllen rhywbeth fel:

9 (9) Rhaid i Aelodau: Gydymffurfio â'r Rheolau cyhoeddedig ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd sy'n weithredol ar unrhyw amser penodol.

## Cwestiwn 6: Mae'r canllawiau ar hyn o bryd wedi'u cynnwys yn y Cod a'r weithdrefn, ac rydym yn awgrymu y dylent fod yn annibynnol. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a oes meysydd penodol o'r Cod, neu'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn gyffredinol, yr hoffech weld arweiniad arnynt.

Cyn belled ag y rhoddir i'r canllawiau'r un statws â'r Cod Ymddygiad ei hun yna, y tu hwnt i'r egwyddorion a geir yn y Cod llawn, nid oes gennym ddim barn ynglŷn ag a yw eitemau eraill yn cael eu cynnwys yn y Cod ynteu yn y Canllawiau cysylltiedig.

Er mwyn i'r canllawiau gael yr effaith lawn o ychwanegu at bwysau'r Cod Ymddygiad, dylai unrhyw ganllawiau o'r fath gael eu cadarnhau gan y Senedd ac yna eu cyhoeddi ochr yn ochr â thestun llawn y canllawiau i sicrhau bod Aelodau wedi ymrwymo i'r canllawiau i'r Cod Ymddygiad.

## Cwestiwn 7: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull arfaethedig o nodi enghreifftiau ymarferol o dorri Cod mewn canllawiau, ac unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych ar ddatblygu canllawiau.

Mae'n anodd gwneud sylw llawn ar ganllawiau nad ydym eto wedi eu gweld.

Er mwyn i'r canllawiau gael yr effaith lawn o ychwanegu at bwysau'r Cod Ymddygiad, dylai unrhyw ganllawiau o'r fath gael eu cadarnhau gan y Senedd ac yna eu cyhoeddi ochr yn ochr â thestun llawn y canllawiau i sicrhau bod Aelodau wedi ymrwymo i'r canllawiau i'r Cod Ymddygiad.

## Cwestiwn 8: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld yn y weithdrefn.

Un tensiwn gyda'r Cod Ymddygiad cyfredol, nad yw'n cael sylw'n glir yn y fersiwn a ailddrafftiwyd, yw lle bo Aelod yn cael ei gyhuddo o rywbeth y gellid hefyd ei ystyried yn drosedd ac y mae cyrff eraill hefyd yn ymchwilio iddo ar yr un pryd. Hoffem weld trefn gliriach o safbwynt sut bydd cwynion o'r natur hwn yn gallu pasio drwy broses fewnol a sicrhau bod ymddygiad amhriodol yn cael ei herio yn amserol heb wneud niwed i unrhyw achos troseddol neu achos cyfreithiol arall sy'n mynd rhagddynt.

## Cwestiwn 9: Byddem yn croesawu eich barn ar y sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor ac unrhyw newidiadau y credwch y gallai fod angen eu gwneud iddynt.

Mae angen i sancsiynau fod yn sancsiynau. Nid yw gwahardd Aelod yn ystod toriad yn sancsiwn addas gan nad yw'n cael dim effaith amlwg ar yr Aelod hwnnw.

Mae rhai o'r sancsiynau presennol yn cynnwys camau sy'n atal yr Aelod rhag cyflawni ei rôl gynrychioliadol. Dylid bod rhyw fath o ddarpariaeth i unigolyn arall ysgwyddo rôl gynrychioliadol yr Aelod hwnnw pan fydd wedi cael ei wahardd. Gallai hyn gynnwys pethau fel hawliau pleidleisio dirprwyol a roddir i Aelod arall o'u Plaid/Grŵp i sicrhau y gellir bwrw pleidlais yn eu habsenoldeb neu benodi dirprwy Aelod i gynrychioli'r Etholwyr hyn. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod gan y bobl a gyflogir gan yr Aelod, drwy lwfansau'r Aelodau, lwybr clir i ddal i gael arian wedi'i awdurdodi (neu golledion yn sgil canslo digwyddiadau a awdurdodwyd) yn ystod absenoldeb yr Aelod hwnnw o'r swydd.

Dylid hefyd ystyried llacio rheolau sy'n ymwneud â chysylltu ag Aelod o'r Senedd nad yw'n eich cynrychioli chi'n uniongyrchol ynglŷn â materion Gwaith Achos os caiff rôl gynrychioliadol aelod ei hatal am amser i sicrhau bod Etholwyr sydd wedi pleidleisio dros Aelod o liw penodol yn cadw eu gallu i ryngweithio â'r aelod o'r Blaid/Grŵp hwnnw tra bydd wedi'i atal.

Mae angen i sancsiynau hefyd fod yn glir ac yn orfodadwy gan Staff Comisiwn y Senedd – os caiff Aelod ei wahardd o Ystâd y Senedd am gyfnod o amser, faint yn union yw'r cyfnod hwnnw o amser? Os yw'r cyfnod o amser yn cynnwys toriad, a ydynt wedi'u gwahardd yn ystod amser y tymor ond yn cael dod i Ystâd y Senedd yn ystod toriad ynteu a yw'r gwaharddiad yn cynnwys wythnosau'r tri thymor ac unrhyw doriadau rhyngddynt.

Hoffai'r PCS weld pwysau i rai o'r sancsiynau ychwanegol a grybwyllir yn y ddogfen ymgynghori gael eu hystyried maes o law. Fodd bynnag, teimlwn y byddai angen newid y geiriad o bosibl cyn bwrw'r ddau awgrym hwn ymlaen:

- Mynnu bod symiau y gwyddys eu bod wedi cael eu hawlio'n amhriodol yn cael eu had-dalu.
- Y pŵer i argymell bod aelod yn cael ei wneud yn destun deiseb adalw – neu fel arall yn cael ei ystyried i'w ddiarddel o'i swydd a phenodi rhywun yn ei le ar sail mwy parhaol.

Y gosb eithaf i aelod staff am dorri'r Cod Ymddygiad yw colli eu gwaith. Dylai Aelodau'r Senedd fod yn wynebu risg debyg os bernir bod eu hymddygiad yn ddigon difrifol o amhriodol ar ôl dilyn proses ddyledus.

Mae angen i'r Cod Ymddygiad fod yn orfodadwy er mwyn iddo gael effaith lawn ar Aelodau. Rhaid i hyn gynnwys y gallu i ad-hawlio arian y bernir ei fod wedi cael ei hawlio'n amhriodol. Fel gyda phopeth, byddai yna gafeatau i hyn ond teimlwn fod y ffaith bod yn rhaid i argymhelliad i roi sancsiynau, y cytuna'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad arno, wedyn fynd gerbron y Senedd i'w drafod ac i ddod i gytundeb yn ei gylch, yn archwiliad cadw cydbwysedd addas o argaeledd sancsiwn o'r fath i'r Aelodau hynny sy'n llwyddo i hawlio arian gan wybod nad yw'n briodol ddyledus iddynt.

Yn olaf, mae gofyn cael ystod neu raddfa o sancsiynau. Gyda'r ffordd y defnyddir y Cod ar hyn o bryd, mae'n ymddangos y ceir naid fawr i'r lefel gyntaf o sancsiynau y gellir eu rhoi i Aelod drwy'r broses Gwynion, a gall hyn arwain at fod materion llai yn mynd heb eu herio. Gall Cod Ymddygiad effeithiol sicrhau bod anghysondebau bychan mewn ymddygiad yn cael eu herio, gan arwain at arferion gwell ac o bosibl atal y troseddau mwy rhag digwydd byth.

## Cwestiwn 10: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cael amserlen ar gyfer cwynion, ac os na, a ddylai fod unrhyw amodau ar dderbynioldeb cwynion dros 12 mis oed.

Er ein bod yn gallu gweld, mewn byd delfrydol, y dylid bod amserlen i atal honiadau rhag cael eu hadrodd ar adegau maleisus, fe allai hyn achosi anhawster i achwynwyr. Mae amserlen ffurfiol yn peri anhawster penodol lle bod angen profi cyfres neu batrwm o ymddygiad ond na ellid ystyried achosion blaenorol fel rhan o'r broses oherwydd oed yr ymddygiad.

Gall yr amserlen gaeth hefyd beri anhawster wrth bennu pryd y gwneir cwyn yn ffurfiol. Mae'n bosibl y bydd rhai achwynwyr, yn enwedig o safbwynt materion Urddas a Pharch, angen cymorth ychwanegol cyn y teimlant eu bod yn dymuno cwyno am weithredoedd Aelod. Mae proses gyfredol y Senedd yn cynnig "Swyddogion Cyswllt" i "drafod pryderon y gallai unigolyn deimlo eu bod yn annerbyniol neu i ganfod sut i wneud cwyn".[3] Fe allai roi'r deiliaid rolau hyn mewn sefyllfa anodd iawn pe byddent hefyd yn gweithio yn erbyn y cloc i droi ymchwiliad yn gŵyn ffurfiol cyn diwedd yr amserlen 12 mis.

## Cwestiwn 11: Byddem yn croesawu eich barn ar sut y dylai adroddiadau'r Comisiynydd gyfeirio at wybodaeth sensitif y dibynnir arni ar gyfer ymchwiliadau.

Mae'r PCS yn croesawu'r ystyriaeth o ychwanegu gallu i ryddhau fersiwn wedi'i golygu o adroddiad y Comisiynydd Safonau. Rydym yn cydnabod yr angen i gadw cydbwysedd rhwng tryloywder a chadw cyfrinachedd i rai sy'n cwyno neu'n darparu tystiolaeth i ymchwiliad. Er mwyn i hyn fod yn ffordd effeithiol o gyflawni hyn, byddai'n rhaid i rai sy'n rhoi tystiolaeth fod yn gallu cael eu sicrhau pan roddant y dystiolaeth (neu ynghynt) na fyddai eu tystiolaeth yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r adroddiad cyhoeddedig.

I lawer a fydd eisiau cwyno neu a gânt eu galw i roi tystiolaeth, nid cyhoeddi'r adroddiad sy'n peri problem/yn drawmatig iddynt ond y ffaith eu bod yn rhannu manylion eu tystiolaeth â'r sawl sydd dan ymchwiliad. Bydd angen hefyd rhoi ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng bod Aelodau sydd dan ymchwiliad (a'r rheini sy'n cefnogi'r Aelod hwnnw) yn cael mynediad i'r ystod lawn o dystiolaeth yn eu herbyn ac amddiffyn y rheini y gofynnir iddynt roi'r cyfryw dystiolaeth.

## Cwestiwn 12: Byddem yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r broses apelio ychwanegol i'r unigolyn annibynnol - y manylir arni uchod - barhau i fod yn rhan o'r weithdrefn.

Rhaid i unrhyw broses deg ar gyfer disgyblu a/neu gwyno yn y gweithle gynnwys gallu i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ffurfiol a wneir.[4] Ac ystyried y bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi bod yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol o safbwynt achos

[3] https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/polisi-urddas-a-pharch-senedd-cymru/

[4] https://www.acas.org.uk/acas-code-of-practice-for-disciplinary-and-grievance-procedures/html

o dorri'r Cod Ymddygiad ni fyddai'n briodol i unrhyw aelodau o'r pwyllgor hwnnw fod yn rhan o'r broses apeliadau.

Cydnabyddwn y gost bosibl y gallai Aelod fynd iddi yn galw i rym ei hawl i apelio. Fodd bynnag, ni ddylai'r gost gyfyngu ar y gallu i gynnal proses deg.

Wedi dweud hynny, byddai'r PCS yn agored i ystyried awgrymiadau eraill a fyddai'n cynnal y gallu i gael adolygiad annibynnol o'r broses a ddilynwyd neu os cyflwynir tystiolaeth newydd i achos. Un awgrym fyddai cael "Pwyllgor Safonau Ymddygiad cysgodol" a fyddai'n cynnwys Aelodau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymchwiliad cychwynnol yn cael eu cefnogi gan grŵp gwahanol o Staff Comisiwn y Senedd. Byddai hyn yn caniatáu'r annibyniaeth honno ar y broses gychwynnol heb y gost o gynnwys arbenigwr allanol ychwanegol.